# Cymryd cofnodion dargopïo'r geg

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymarfer diogel cymryd cofnodion dargopïo'r geg i gynhyrchu cofnodion trosglwyddo, fel y bo'r gofyn, ar gyfer gosod castiau ar argysylltwyr. Bydd y swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni i wirio am broblemau achludol cyn gwneud penderfyniadau am gynllun triniaeth priodol. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cadarnhau pwy yw'r unigolyn yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
6. ennill cydsyniad gwybodus, dilys gan yr unigolyn yn unol â gweithdrefnau penodol
7. cyfathrebu â phobl eraill berthnasol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i'w dealltwriaeth a'u hanghenion, a'r hyn sy'n well ganddynt
8. parchu hawliau a dymuniadau'r unigolyn yn gysylltiedig â'i breifatrwydd, ei gredoau a'i urddas
9. rhoi cymorth i'r unigolyn a sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu bob amser
10. nodi cyflyrau clinigol rhagdueddol a allai effeithio ar ddefnyddio crymyn wyneb ar wyneb yr unigolyn, gan gyfrif am ddiogelwch yr unigolyn a/neu ofynion cywirdeb
11. penderfynu ar dechneg addas a diogel yn gysylltiedig â'r math o grymyn wyneb i'w ddefnyddio, ac a yw'r unigolyn heb ei ddannedd ei hun, heb ei ddannedd ei hun yn rhannol, neu a oes gan yr unigolyn ei ddannedd ei hun
12. esbonio'r weithdrefn yn glir i'r unigolyn
13. cymhwyso rhagofalon safonol ar gyfer atal a rheoli heintiau
14. paratoi'r cyfarpar y mae ei angen ac unrhyw ddeunyddiau ategol, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
15. gosod yr unigolyn yn gyfforddus ar gyfer y weithdrefn a sicrhau bod tiwbiau'r glust a meinweoedd yr wyneb wedi'u hamddiffyn
16. nodi nodweddion anatomegol perthnasol a gosod y crymyn wyneb, a'i leoli'n briodol ar wyneb yr unigolyn
17. addasu'r fforc gofnodi achludol a dangosydd llinell sylfaen orbitol ar y crymyn wyneb a'i gloi yn ei le i gael cofnod cywir, gan ofalu'n briodol am feinweoedd yr unigolyn
18. tynnu'r crymyn wyneb oddi ar yr unigolyn a gwirio'r cofnod am gywirdeb a

chwmpas

19. trafod y  cofnod gyda'r unigolyn ac esbonio'r cam nesaf yn y broses
20. dihalogi'r crymyn wyneb
21. cysylltu cofnod y crymyn wyneb ag unrhyw gofnodion mewneneuol cysylltiedig, os yw hynny'n briodol
22. cymryd rhagofalon priodol i storio'r cofrestriad mewn cynhwysydd priodol a fydd diogelu'r cofnod hyd nes caiff ei ddefnyddio
23. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
24. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun, fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. sut i gyfathrebu â phobl eraill berthnasol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i'w dealltwriaeth a'u hanghenion, a'r hyn sy'n well ganddynt
8. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
9. sut i gael cadarnhad o bwy yw unigolyn yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
10. yr egwyddorion, yr ymarfer a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydsyniad gwybodus
11. pwysigrwydd cymhwyso rhagofalon rheoli heintiau safonol i gymryd cofnodion o'r geg, a chanlyniadau posibl ymarfer gwael
12. anatomi a ffisioleg berthnasol yn gysylltiedig ag argysylltiadau ac achludiadau'r cymal arlais-fandiblol (TMJ) ac anhwylderau cysylltiedig
13. gweithdrefnau ar gyfer cymryd cofnodion dargopïo'r geg
14. yr amrediad o systemau darpgopïo'r geg sydd ar gael ar hyn o bryd
15. ymarfer a gweithdrefnau clinigol yn gysylltiedig â dargopïo'r geg ar unigolyn â dannedd, â dannedd yn rhannol a heb ei ddannedd ei hun, gan gynnwys sut i ddefnyddio argysylltwyr
16. sut i reoli ac integreiddio gweithdrefn dargopïo'r geg wrth ddarparu prosthesisau deintyddol gweithredol ac esthetig (sefydlog a symudadwy) gyda gofynion a/neu anghenion unigol
17. sut i fesur cofnodion cysylltiedig gyda dyfeisiau hybrid dargopïo'r geg, neu

ddyfeisiau tebyg

18. datblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o ran cofnodi agweddau ar leoliad y cymal arlais-fandiblol (TMJ)
19. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
20. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

Cymryd cofnodion dargopïo'r geg

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHOH12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Technegwyr Deintyddol |
| **Cyfres/Set** | Iechyd y geg |
| **Geiriau Allweddol** | Cofnodi, dargopïo, y geg |